y dinesydd

Gorff/Awst 2002 PAPUR BRO DINAS CAERDYDD A'R CYLCH Rhif 273

# At holl garedigion yr Urdd Caerdydd a'r Fro

On'd yw amser yn llusgo ers dechre Mehefin! On'd yw bywyd yn wag! Dim pwyllgor i'w fynychu, dim gweithgaredd i'w drefnu, dim arian i'w godi, dim cinio na dawns na chyngerdd i'w gefnogi, dim plant i'w hyfforddi na'u casglu na'u cludo. Do bu'r tair blynedd ddiwetha yn un bwrlwm o baratoi, ond nawr mae'r cwbwl drosodd ac Eisteddfod yr Urdd Caerdydd a'r Fro yn ddim ond atgof. Ond atgof gwych o wythnos lwyddiannus, a byrdwn yr ychydig eiriau hyn yw diolch yn ddi-ffuant iawn i bob un ohonoch chi a gyfrannodd mewn unrhyw ffordd at y llwyddiant hwnnw. Nid ar chwarae bach y mae cynnal Gŵyl fel hon bellach, ac rwy'n ymwybodol iawn o'r ymdrech aruthrol a wnaeth cymaint o bobl mewn cymaint o wahanol gyfeiriadau i sicrhau y bydden ni'n cyrraedd pob nôd ac yn gwireddu pob breuddwyd. Diolch am bob cefnogaeth; diolch am ymateb mor gadarnhaol i bob galwad cyn ac yn ystod wythnos yr Eisteddfod. Roedd hi'n bwysig i ni, ddinasyddion Caerdydd a'r Fro, fod y Brifwyl yn llwyddiant. Roedd hi'n bwysicach fyth i fudiad yr Urdd ar ôl holl drafferthion a thorcalon y cyfnod diweddar. A thystiolaeth pawb o swyddogion y mudiad oedd fod yna ysbryd a hyder newydd yn y rhengoedd erbyn diwedd yr wythnos. Gallwn ni yn y parthe yma felly fod yn falch o'n rhan ni yn cyfrannu at ail gynnau fflam y gobaith ar ôl tristwch mwg y difa flwyddyn ynghynt.

Ie, hir fu'r disgwyl, a nawr mae wedi mynd. Digwyddodd, darfu ... Wel na, nid yn llwyr. Y gobaith yw y bydd yn gadael ei gwaddol ar ei hôl, ac y bydd cyd ymdrech y cyfnod diweddar a bwrlwm y gwahanol weithgareddau a'n tynnodd ni i gyd at ein gilydd, yn Gymry Caerdydd a'r Fro, yn parhau yn y blynyddoedd sydd i ddod. Dyna fydd gwir fesur ei llwyddiant i ni yn yr ardal hon. A chofiwch, mae'r 'Steddfod nôl yn y Brifddinas yn 2005!!! Nawr dyna i chi her. A na, does dim hawl gan neb i drefnu gwyliau!!!

**Huw Llywelyn Davies**
Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith

## PENODI SIÂN I ARWAIN Y FENTER



Mae Menter Iaith Caerdydd wedi penodi Siân Lewis, sy'n Is-Gyfarwyddydd yr Urdd yn y De gyda chyfrifoldeb dros Gaerdydd a'r Fro, fel Swyddog Datblygu newydd y Fenter. Bu Siân yn brysur iawn dros y ddwy flynedd diwethaf ynghyd ag eraill o staff yr Urdd a llu o wirfoddolwyr lleol yn paratoi at yr Eisteddfod yma ym Mharc Bute.

Mae'r penodiad yn un amserol iawn gan fod y Fenter yn ffyddiog fod llwyddiant digamsyniol yr Eisteddfod wedi bod yn hwb aruthrol i ymdrechion y rhai sydd am weld y Gymraeg ar wefusau nifer cynyddol o blant, pobl ifanc ac oedolion ein prifddinas.

Mae Siân, sy'n byw ym Mhontcanna, wedi ei magu yma yng Nghaerdydd ac yn ferch i Alan a Catherine Jobbins o'r Eglwys Newydd. Bu'n ddisgybl yn Ysgolion Bryntaf a Glantaf cyn cymhwyso mewn Astudiaethau Busnes ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae'n briod â Gary, sy'n Swyddog Chwaraeon Cenedlaethol yr Urdd ac mae ganddyn nhw un mab Zac sy'n ddwyflwydd. Bydd Siân yn gyfarwydd i ddarllenwyr *Y Dinesydd* gan mai hi fu'n cribinio'r deunydd ar gyfer Tudalen yr Urdd yn rheolaidd.

Mae'r Fenter, sy'n cael cefnogaeth ariannol gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, yn benderfynol o sicrhau bod y Gymraeg yn cael lle canolog ym mhob agwedd o fywyd y ddinas. Rhan allweddol o waith Sian fydd cydweithio gyda'r Urdd a llu o bartneriaid eraill yn cynnwys Cyngor Sir Caerdydd i ehangu'r cyfleoedd a'r

parhad ar dudalen 4

### Enillwyr Eisteddfod yr Urdd 2002

Gan fod cymaint o enillwyr o Gaerdydd a'r Fro yn yr Eisteddfod eleni mae'r rhestr yn rhy faith i'w chynnwys yn *Y Dinesydd*. Felly, llongyfarchiadau i bawb a fu'n llwyddiannus a diolch i bawb am eu hymdrech glodwiw gan obeithio y gwelir eto restr faith o enillwyr yn Eisteddfod yr Urdd ym Mharc Margam y flwyddyn nesa.

### CWLWM BUSNES CAERDYDD A'R CYLCH




**LEWIS EVANS**, CADEIRYDD, CWLWM BUSNES CAERDYDD A'R CYLCH (ar y dde) yn cyflwyno siec £1000 tuag at Gronfa'r Wyl. i **HUW LLYWELYN DAVIES**, CADEIRYDD PWYLLGOR GWAITH, EISTEDDFOD YR URDD 2002 *PHOTO Brian Jarrett*

# Y Dinesydd

**Gorff./Awst, Rhif 273.** **ISSN 1362-7546**
Cyhoeddir *Y Dinesydd* gan Bwyllgor *Y Dinesydd*.
Fe'i cysodir gan PPS, 139 Station Road, Ystum Taf, Caerdydd,
Ffôn: 029 2056 6046, ebost: lorraine@pioneerprinting.co.uk
a'i argraffu gan Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd.

**Golygydd y rhifyn hwn:**
Gwilym Roberts

**Golygydd y rhifyn nesaf:**
Siân Parry-Jones

## NEWYDDION, ERTHYGLAU, ETC.

**Anfonwch ddefnyddiau ar gyfer rhifyn Medi 2002 erbyn 21 Awst at:**
Siân Parry-Jones, 87 Halliard Court, Glanfa Iwerydd, Caerdydd CF10 4NH (Ffôn: 07985-043633; e-bost: sepj@lineone.net)
**neu at Gadeirydd Pwyllgor *Y Dinesydd*:**
Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ (Ffôn: 2062 8754;
e-bost: JamesEW@caerdydd.ac.uk).

## CALENDR

Anfonwch eitemau at Dr E. Wyn James, 16 Kelston Road, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ (Ffôn: 2062 8754; e-bost: JamesEW@caerdydd.ac.uk).

## DOSBARTHU

**Anfonwch unrhyw sylwadau am ddosbarthu at:**
Mr Robin Jones, 1 Kings Road, Radur, Caerdydd (Ffôn: 2084 2929).

## HYSBYSEBION

**Mae'r *Dinesydd* yn ffordd ddelfrydol o hysbysebu ac mae incwm hysbysebion yn hanfodol at gynnal y papur.**
**Dylai pawb sydd am hysbysebu gysylltu â:**
**Menna Gwyn, 41 Wingfield Road, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd (Ffôn: 029-2041 8270;**
**e-bost: menna@gwyn41.freeserve.co.uk)**

## CYFRANIADAU ARIANNOL

Mae ein trysorydd, Mr Rheon Tomos, 37 Heol Felindre, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 7JE (Ffôn: 2040 4906) yn croesawu unrhyw gyfraniad bob amser. Cofiwch fod *Y Dinesydd* yn dibynnu am ei barhad ar gyfraniadau'r sawl sy'n ei ddarllen.

## FFURFLEN GYFRANNU

Amgaeaf rodd o £__________ fel cyfraniad at gynnal *Y Dinesydd*.

Enw: ..................................................................

Cyfeiriad: ..................................................................

.................................................. Côd Post: ....................

Rhif Ffôn: ..................................................................

Anfoner y ffurflen hon at Mr Rheon Tomos, 37 Heol Felindre, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 7JE.

**CYDNABYDDIR CEFNOGAETH BWRDD YR IAITH GYMRAEG I'R CYHOEDDIAD HWN**

Os oes angen gwybodaeth o unrhyw fath am yr iaith Gymraeg, galwch y LLINELL GYSWLLT . . .


**0845 6076070**

**Llun - Gwener 10.00am - 12.30pm, 1.30 - 3.30pm**
cyfradd galwadau lleol

www.mentrau-iaith.com www.bwrdd-yr-iaith.org.uk www.papurau-bro.com

## CROESAIR gan Rhian Williams

**Rhif 33** **Gorff./Awst 2002**



**Ar Draws**

1. Cael sŵn tebyg mewn trindod linynnol (4)
8. Eich nod chi a 500 yn crio yw glanhau'r gweithwyr efallai! (5,5)
9. Rhoi Olaf rywsut yn y gôl i ymwneud â'r pwll (7)
10. Rhoi hanner swllt ar Bob bron i gael ffordd i sicrhau'r drws (4)
12. I gyrraedd hwn (6)
14. Clywed lleferydd dau alluog (6)
15. A goginir ffa crin ar draws y sianel? (6)
17. '____ dy Eglwys, Iesu mawr,
 Ei grym yw bod yn lân (H.E.L.) (6)
18. 'Oll yn eu gynau gwynion
 Yn ____ Mab y Dyn' (M.R.) (4)
19. Cael cyfle i dorri ffêr Nest (7)
21. Gallu anner i greu terfysg yma (10)
22. Cloch yn siglo fel mantell (4)

**I Lawr**

2. 'Gwna fi fel seren olau wiw
 'N _____ yn y byd 'rwy'n byw' (W.W.) (10)
3. Wylo am yn ail am ddiogi Ifor (4)
4. Chwilio am nod Rhian wirion (6)
5. Blodyn pitw a fath o gwmpas canol Elin (6)
6. A oes clwb mawr yma? (8)
7. Llo swnllyd wedi cyrraedd pen tennyn i fyny'r grisiau (4)
11. 'Lle bu gardd, __ __ ___
 Gwelaf lain â'i drain yn drwch ((B.T.H.) (2,2,6)
13. Trafodaeth i ni mewn amgylchiadau tywodlyd (8)
16. 'Côr Ffydd' yn chwilio am le i adael y draffordd (6)
17. Rwy'n gwybod y cefna Dai ar y pwyth (6)
18. Mae'r llety am yn ail yn llawn golau (4)
20. Mae'n bechod yn Lloegr cael can basin molchi (4)

**Atebion Croesair 32**

**Ar draws:** 1. Ysgoldy; 4. Degwm; 7. Ysu; 8. Ysgyfaint; 9. Radio; 11. Yn dawel; 12. Pinacl; 14. Hyrddod; 17. Draenog; 18. Manaw; 19. Tegeirian; 20. Cod; 21. Diddal; 22. Cywilydd. **I Lawr:** 1. Yn y trap; 2. Gau; 3. Ysgwyd; 4. Dyfrdwy; 5. Gwinwydden; 6. Metel; 8. Yno; 10. Dan wasgedd; 13. Cantigl; 15. Diwedydd; 16. Y gainc; 17. Datod; 18. Mon; 20. Cul.

Derbyniwyd 21 ymgais, ac 16 ohonynt yn gywir. Danfonir y tocyn llyfr i Gethin Jones, 3 Heol Dewi, Abergwaun, Sir Benfro. Cafwyd gormod o atebion cywir i restri'r enwau i gyd y tro yma.

Ymddiheuriadau i'r buddugwyr sydd heb gael eu tocyn llyfr eto; byddant ar eu ffordd cyn bo hir.

**Cystadleuaeth Gorff./Awst 2002**: Anfonwch eich atebion i: 22 Heol Cae Rhys, Rhiwbina, Caerdydd CF14 6AN. Atebion i gyrraedd erbyn 21 Awst 2002.

## Diolch

Diolch o galon i Gymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd ac Eglwys Dewi Sant am eu rhoddion hael i'r *Dinesydd* yn ddiweddar.

## Llongyfarchiadau i:

- Paul a Menna Edwards ar enedigaeth Elin Mai ar 24 Mai yn Ysbyty'r Brifysgol Caerdydd. Chwaer fach i Mared.
- Richard Gravelle a Gwenllian Pierce Lewis ar enedigaeth eu mab Macsen Lewis Richard yn Ysbyty's Brifysgol, Caerdydd ar 25 Mai.
- Colin Murphy gynt o Drelai ond sy bellach yn byw yn y Meisgyn ac yn gweithio yn Sain Ffagan a'r Amgueddfa ym Mharc Cathays, ar gael ei dderbyn i wneud gradd allanol yn y Gymraeg yng Ngholeg y Brifysgol, Aberystwyth.
- Ana Clara Cantero Simms o Drevelin yn yr Andes ar ei phriodas â David Warren o Lundain yn Swyddfa Gofrestru Caerdydd ar 29 Mehefin. Byddan nhw'n ymgartrefu yng Nghaerdydd.
- i Huw Onllwyn Jones, aelod o Cardiff Writers Circle ar ennill cystadleuaeth ysgrifennu stori fer yn ystod mis Mehefin. Fe dderbyniodd ddysgl gwydr hardd yn rhodd.
- Rhun a Llinos Iorwerth, Treganna ar enedigaeth Siwan, chwaer fach i Elen ac wyres arall i Peredur a Dilys Hughes, Llanddeusant, Ynys Môn ac Edward a Gwynedd Morris Jones, Llandegfan, Ynys Môn. Fe'i ganwyd ar 20 Mai yn Ysbyty Llandochau.
- Mathew a Tracey Jones, Rhiwbina ar enedigaeth eu cyntaf anedig, Eloise Kate ar 19 Mai yn Ysbyty Llandochau. Wyres i Mansel a Kathleen Jones, Rhiwbina.
- Paul Carey Jones, Rhiwbina, ar ei ddyweddïad â Molly Nielson ar 1 Mehefin. Daw hi o Galiffornia a bu'n astudio'r Basŵn yn yr Academi Frenhinol yn Llundain.
- Dr Iwan Bebb Morris a Dr Eleanor Morris, Llandaf ar enedigaeth Gruffydd Elis Morris ar 10 Mehefin yn Ysbyty Llandochau. Brawd bach i Osian Llywelyn Bebb Morris.



**Llongyfarchiadau** i Richard Gwyn Jones a Marcia Elizabeth Jervis ar eu priodas yn Eglwys y Plwy', Llanidloes ar 6 Ebrill. Mae Richard yn fab i Dilwyn a Marian Jones, Creigiau, ac yn gweithio fel Cydgysylltydd y Cyfryngau gydag OXFAM. Mae Marcia yn enedigol o Lanidloes ac yn gweithio i gwmni ZARLINK fel Peiriannydd Marchnata Rhyngwladol. Mae'r ddau wedi ymgartrefu yng Nghaerdydd.

**Cydymdeimlir ag:**

- Eirwen, Alun a Rhian Roberts ar farwolaeth eu tad Ellis Roberts, 93 oed yn Ysbyty'r Brifysgol yng Nghaerdydd ar 21 Mehefin. Bu'r angladd yn Eglwys y Crwys ar 27 Mehefin ac yn dilyn yn Amlosgfa'r Ddraenen.
- John a Huw Jones a'u teuluoedd ar farwolaeth eu mam Megan Jones ar 24 Mai. Bu'r angladd yng Nghapel y Tabernacl, Yr Ais ar 10 Mehefin.
- David, Philip a Peter Davies a'u teuluoedd ar farwolaeth eu mam Eluned Davies ar 31 Mai. Cynhaliwyd yr angladd yng Nghapel Ebeneser ar 13 Mehefin ac yn dilyn yn yr Amlosgfa yn y Ddraenen.

## Dathlu Priodasau Aur Gorffennaf 2002

Llongyfarchiadau i'r **Parchedig Trefor a Mrs Edna Davies Jones**, Bro Dawel, Ynys Môn oddi wrth Goronwy, Bro Dawel ac Eirian a Gwilym, Caerdydd.

Llongyfarchiadau i'r **Parchedig Ddoctor Dafydd a Kitty Davies**, Yr Eglwys Newydd, oddi wrth Gwilym ac Eirian, Megan a Lovemore, Gwen a David a'u bechgyn Owain a Geraint, Caerdydd.

## Cwmni Telynau Salvi

Ers 1 Mehefin mae Cwmni Telynau Salvi wedi agor stiwdio arddangos yn 8 Heol Caerdydd, Ffynnon Taf a cheir dewis eang o delynau pedal a gwerin, ynghyd â cherddoriaeth a thannau ac ati. Am fwy o fanylion cysylltwch ag Allison ar 0207 928 8451.

## Apêl Delyth Vaughan o Bandy Tudur, Abergele

Mae Delyth yn fyfyrwraig ym Mhrifysgol Bangos ac yn casglu deunydd ar gyfer ei thraethawd hir sef "Cyfraniad Mudiad yr Urdd i Gerddoriaeth Cymru". Mae hi am ganolbwyntio yn benodol ar yr Eisteddfod a'r Gwersylloedd. Os all unrhyw un ei helpu yna cysylltwch â hi drwy'r e-bost: weu801@bangor.ac.uk

## Cyhoeddi Llyfr

Mae Hugh Gwyn Jones sy'n byw yn y Mynydd Bychan, Caerdydd wedi cyhoeddi hunangofiant yn Saesneg o'r enw "A Welsh Journey" sy'n olrhain ei fagwraeth yng Ngogledd Cymru a'i gyfnod yn ystod blynyddoedd y Rhyfel yn India a'i fywyd wedi hynny. Gellir prynu copi o'r llyfr drwy gysylltu â'r awdur ar 2021 8686.

## Luned Emyr



Llongyfarchiadau i Luned Emyr ar gael ei derbyn i astudio yn y Coleg Ffilm Ewropeaidd yn Ebeltoft, Denmarc. Mae Luned, sy'n byw yng Nghaerdydd, yn graddio mewn Drama ym Mhrifysgol Cymru, Aberystwyth ym mis Gorffennaf eleni. Bydd yn dechrau ei hastudiaeth yn y Coleg Ffilm Ewropeaidd ym mis Medi. Dymuniadau gorau iddi.

## Chwaraeon y Gymanwlad

Dewiswyd 34 o athletwyr o Gymru i gystadlu yn Chwaraeon y Gymanwlad ym Manceinion ym mis Gorffennaf. Bydd Colin Jackson o Lanedeyrn gynt yn un o'r sêr fydd yn cynrychioli Cymru a Tanni Grey Thompson fydd yn cario baner Cymru yn y Seremoni Agoriadol ar 25 Gorffennaf. Lwc dda i Dîm Cymru.

## Ennill o Wyth Wiced!

Roedd Dydd Llun, 25 Mehefin yn ddiwrnod pwysig i gricedwyr Cymru gan y cynhaliwyd y gêm griced gyntaf erioed rhwng Cymru a Lloegr ar lain Gerddi Soffia ar y diwrnod hwnnw a gwelwyd sêr megis Robert Crofft yn cynorthwyo i sicrhau buddugoliaeth i Gymru a hynny o wyth wiced. Llongyfarchiadau i'r tîm gan obeithio y daw'r gêm hon yn un flynyddol.

## Ymddeoliad hapus Garfield!

Ymddeoliad hir a hapus i Garfield Jones, Yr Eglwys Newydd ar ei ymddeoliad fel Prifathro Ysgol Gynradd Grangetown ar ddiwedd y tymor hwn.

o dudalen 1
ddarpariaeth i Gymru Cymraeg a dysgwyr o bob oedran i ddefnyddio'r iaith.

Mae'r Fenter hefyd yn gobeithio am gyhoeddiad yn fuan iawn gan y Cyngor Sir y byddant yn derbyn eu cais am grant o dan eu Cynllun Grantiau Cymunedol. Mae'r cymorth yma yn hanfodol i lwyddiant y Fenter ac fel sylfaen i'r bartneriaeth gyda'r Cyngor fel mewn rhannau eraill o Gymru.

Mae'r gymuned Gymraeg yn wasgaredig yn ein prifddinas. Daeth Eisteddfod yr Urdd â ni at ein gilydd ac mae wedi profi mor bwysig yw ymroddiad gwirfoddol mewn partneriaeth â'r sector gyhoeddus a byd busnes i hybu'r iaith. Llongyfarchiadau i Sian ar ei phenodiad a phob hwyl iddi ar y gwaith o gydweithio gyda llawer ohonoch chi wrth geisio creu cyfleoedd newydd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yng Nghaerdydd.

**John Rowlands**
**Cadeirydd Menter Caerdydd**

### CODI DAU DY O FEWN DENG AWR DROS Y DIGARTREF

Buodd dau dîm o labrwyr egnïol, sêr S4C a haneswyr yn wynebu'r her o godi dau dŷ dros dro o fewn un diwrnod yn Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan ddydd Mawrth, Mehefin 25, er mwyn codi arian tuag at elusen y Sianel eleni, sef Shelter Cymru.

Roedd y ddau dîm o adeiladwyr yn wynebu'r her o godi dau dŷ unnos o fewn cyfnod o ddeg awr yn unig, gan gychwyn am ddeg y bore a chan anelu at orffen cyn wyth y nos.

Roedd y timau'n cynnwys aelodau o Dîm Tynnu Rhaff Llanbedr Pont Steffan, sef Siân Thomas, Caryl Lewis ac Anwen Jones a thri aelod o Gymdeithas y Ffermwyr Ifanc, sef Dafydd Lewis, hefyd o Lanbedr Pont Steffan, Ceredigion, a dau ffermwr ifanc o Sir Gaerfyrddin, Rhodri Howells o Fronwydd ac Eleri Thomas o Frechfa.

Roeddynt yn cael help llaw pedwar o sêr S4C, Ffion Dafis, Amanda Protheroe Thomas, Bryn Fôn a Rhodri Ogwen Williams, a'r ddau hanesydd, Dafydd William ac Owain Davies. Roedd cyflwynwyr y rhaglen, Rhodri Owen ac Alex Jones wrth law i roi anogaeth iddynt. A bydd cyfle i wylwyr S4C gefnogi'r timau hefyd trwy gyfrannu'n ariannol - rhif ffôn Apêl Elusen S4C/Shelter Cymru ar gyfer cyfraniadau yw 08705 122277.

### Medal i Louise Brown

Llongyfarchiadau i Louise Brown disgybl yn Ysgol Uwchradd Caerdydd ar ennill y Fedal Lenyddol i Siaradwyr Cymraeg o Ddewis yn Eisteddfod yr Urdd. Daeth yr ail yn y gystadleuaeth sef Zoe Thomas o Ysgol Uwchradd Caerdydd hefyd. Kathryn Rees athrawes yn yr Adran Gymraeg yn yr ysgol oedd Meistres y Ddefod yn y seremoni a hithau hefyd yn gyn-ddisgybl yn yr ysgol. Rhoddwyd y Fedal gan Elunis a Howard Goodfellow a'r teulu er côf am Mrs Caroline Gibbs, mam Elunis a'i chwaer Caryl, a fu'n athrawes Gymraeg yng Nghaerdydd. Hefyd rhoddwyd rhodd o docyn llyfr gwerth £30 o Gronfa Goffa Gwyn Daniel er côf am Moelwyn Preece, Yr Eglwys Newydd. Nerys Roberts ydy Pennaeth Adran y Gymraeg yn Ysgol Uwchradd Caerdydd ac estynnwn ein llongyfarchiadau iddi hi a'i staff yn yr Adran am eu hymroddiad a'u llwyddiant.

### Wythnos Iâr Fach yr Haf, 20-27 Medi

Cefnogwch Hosbis Tŷ Hafan yn y Fro drwy drefnu bore coffi neu de parti i godi arian yn ystod Wythnos Iâr Fach yr Haf. Am ragor o fanylion cysylltwch â 01446 739993.

### Sefydliad Prydeinig y Galon

Bydd Côr Meibion Toronto gyda chymorth Côr Meibion Parc yr Arfau yn cynnal noswaith o gerddoriaeth er budd yr ymgyrch yn erbyn clefyd y galon, ar ddydd Gwener, 16 Awst 2002 am 7.30 y.h. yn Theatr Ddarlith 1, Coleg Meddygol Prifysgol Cymru, Caerdydd,

Ffurfiwyd Côr Meibion Toronto ond ychydig flynyddoedd yn ôl pan geisiodd yr aelod sylfaenol a llywydd cyntaf y Côr, Gwyn Roberts, gynnau ysbryd traddodiadol canu côr meibion Cymreig yn ei wlad fabwysiedig. Sefydlwyd y Côr gan Gwyn ac unigolion o'r un farn ac ef, o dreftadaeth Gymreig, ym mis Tachwedd 1995.

Mae Côr Meibion Toronto yn falch i dynnu ar y traddodiad cyfoethog Cymreig o ganu emynau a chaneuon sy'n tarddu o fynyddoedd a chymoedd Cymru. Mae'r Côr yn gymysgedd perffaith o gerddoriaeth draddodiadol a'r cyfoes. Gwireddwyd hynny pan gafodd y Côr yr anrhydedd o fod yn y safle terfynol yng Nghystadleuaeth Gorawl Corfforaeth Darlledu Canada ym 1988.

Mae poblogrwydd y Côr yn tyfu ac mae'n mwynhau amserlen brysur o gyngherddau yn Nhoronto a thu hwnt ac wedi cael gwahoddiad i ganu yng Nghymru eleni. Mae'r Côr yn falch i gael Bryn Terfel y bâs-baritôn Cymreig byd-enwog fel llywydd anrhydeddus.

Ffurfiwyd Côr Meibion Parc yr Arfau 34 mlynedd yn ôl. Bob blwyddyn mae'r Côr yn cynnal cyngherddau er budd sefydliadau lleol a chenedlaethol, ysgolion ac elusennau – a thrwy hynny yn codi miloedd o bunnoedd i achosion da.

Tocynnau ar gael am £5 a gwybodaeth ychwanegol cysyllter â:
Mrs Anne Innes MBE
6 Heol Wernlas
Eglwys Newydd
Caerdydd CF14 1RY
Ffôn: 029 2061 6230

### CYRRI A CHYNGHANEDD

Os ydych chi wedi cael llond bol ar gaws a gwin, llenwch eich bol a bodlonwch eich awen gyda nosweithiau **Cyrri a Chynghanedd,** Gêmau Olympaidd Scrabble, Campau Barddoniaeth a chlybiau llyfrau ar ôl ysgol, yn siop lyfrau newydd o'r enw **Cab@n,** yng Nghaerdydd, a agorodd ei drydau ar 22 Mehefin.

Mae Helen Thomas, cyn athrawes Saesneg yn Ysgol Gyfun Llanhari, cyn-bennaeth Saesneg Ysgol Gyfun Rhydywaun a chyd-berchennog Cab@n , yn edrych ymlaen at ei phrofiad cyntaf ym myd busnes: **"Mae nosweithiau Cyrri a Chynghanedd yn ffordd wych o ddangos fod diwylliant a llenyddiaeth Cymru yn fyw ac yn iach, yn gosmopolitan ac yn awyddus i dorri tir newydd. Mi fydd Cab@n yn rhannu'r weledigaeth sydd wedi arwain at ymgais Caerdydd i fod yn Ddinas Diwylliant Ewrop 2008 – dinas sy'n cefnogi unigolion a chymunedau wrth iddyn nhw ddathlu diwylliant gyda chelfyddyd".**

Oriau Cab@n yw 9am – 5pm, dydd Llun i ddydd Sadwrn (ar wahân i ddigwyddiadau arbennig).

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Siân Hughes, Cysylltiadau Cyhoeddus, (029) 2021 3120 neu 07814 565 017 neu sianhughes@sehughes.fsnet.co.uk

**neu ffoniwch Cab@n yn uniongyrchol ar (029) 2084 2691.**

# Newyddion o'r Eglwysi

## Ebeneser

Yn yr oedfa ar Sul cyntaf eisteddfod yr Urdd yn y Pafiliwn, canodd parti o dros 30 o blant Ebeneser yn ardderchog o dan arweiniad Mrs Mair Robins ac i gyfeiliant Mrs Sandra Semmens.

Hyfrydwch i ni fel eglwys oedd cael rhannu pabell gyda rhai o eglwysi eraill cylch Caerdydd a'r Cyngor Ysgolion Sul ar faes Eisteddfod yr Urdd. Cawsom osod arddangosfa a oedd yn adlewyrchu ein bywyd ac ar ddydd Llun yr Eisteddfod, Ebeneser oedd yn gyfrifol am y babell.

Cynhaliwyd gwibdaith Cymdeithas y Chwiorydd ar 16eg Mai. Cafwyd bore difyr yn Y Fenni a phrynhawn diddorol yn teithio trwy'r 'Fforest y Ddena', cyn ymweld ag Abaty Tyndyrn ddiwedd y prynhawn.

Cynhaliwyd cwrdd ieuenctid yn seiliedig ar Neges Ewyllys Da yr Urdd ar fore Sul Mai 12ed. Lluniwyd neges ewyllys Da yr Urdd eleni gan Ysgol Dyffryn Conwy, Llanrwst mewn cydweithrediad â Chymorth Cristnogol. Paratowyd oedfa Ewyllys Da yr Urdd ar gyfer ysgolion ac aelwydydd gan ein gweinidog.

## EGLWYS Y CRWYS

Tawel yw gweithgareddau unrhyw eglwys yr adeg yma o'r flwyddyn serch hynny o dan yr wyneb mae nifer o gymdeithasau o fewn yr Eglwys yn paratoi yn ddyfal eu rhaglenni gogyfer â thymhorau yr Hydref a'r Gaeaf

Ar ddechrau'r mis hefyd codwyd nifer o flaenoriaid newydd i fod yn gefn i'r rhai sy eisoes yn llywio gweithgareddau'r Eglwys. Cawsant eu hordeinio yn Henaduriaeth Hirwaun ddydd Sadwrn, Mehefin 22.

Aeth taith flynyddol y Grwp Merched ar ymweliad â Chastell Cyfarthfa. Cafwyd noson ddifyr yn edrych ar rai o greiriau'r amgueddfa a bwrw golwg ar rai o luniau Curnow Vosper sy'n cael eu harddangos yn Oriel y Castell ar hyn o bryd. Mwynhawyd hefyd swper cymdeithasol yn ffreutur y Castell a fu'n gartre mor haearnaidd i deulu'r Crawshays.

Ddydd Sadwrn, 11 Mai, cafodd aelodau'r Gymdeithas Ddiwylliannol gyfle i ymweld â Bro Morgannwg. Islwyn "Gus" Jones oedd yr arweinydd gwadd ac fe dywyswyd yr aelodau yn frwdfrydig drwy bentrefi ac ardaloedd rhai o enwogion y genedl. Yn eu plith Thomas William a John Williams dau o emynwyr y Fro, Iolo Morganwg, pensaer Gorsedd y Beirdd ac Edward Matthews, un o gewri y pulpud yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Ar ddiwedd y daith cafwyd cyfle i rannu paned a sgwrs ac i fynegi gair o ddiolch i bawb a drefnodd daith mor lwyddiannus mewn heulwen braf.

Fore Sul, 2 Mehefin cafodd plant yr Ysgol Sul gyfle i rannu o'u doniau gyda chynulleidfa deilwng iawn ym mhafiliwn yr Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ar gaeau Cooper. Fe'i hyfforddwyd gan Mrs Siân Griffiths gyda chymorth yr athrawon a'r rhieni.

## Yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg

Diolch i bawb a fu'n cynorthwyo ym mhabell Gwasg Bryntirion a'r Eglwys Efengylaidd ar faes Eisteddfod yr Urdd. Daeth nifer fawr i mewn am sgwrs a phaned, gan fynegi diddordeb yng ngwaith yr eglwys. Ar brynhawn dydd Sul yr Eisteddfod cynhaliwyd te i'r dysgwyr yn adeilad y capel, a hyfryd oedd gweld nifer yn mentro i'n plith i fwynhau'r gymdeithas a'r addoliad. Cymerodd sawl un o'r aelodau ran yn y gwasanaeth oedd dan arweiniad Dr Phil Elis, ac edrychwn ymlaen yn awr at gyfarfod tebyg yn yr Hydref.

Ar nos Iau 13 Mehefin daeth merched yr eglwys a nifer o Eglwys Highfields ynghyd i glywed hanes ymweliad Gwen Emyr â'r Wladfa yn gynharach eleni. Darparwyd pryd o fwyd ar ddechrau'r achlysur a gwnaed casgliad tuag at y gwaith o gwblhau'r adeilad newydd yng nghefn capel Tabernacl, Trelew.

Yna ar nos Wener 21 Mehefin, cafwyd achlysur hapus ar lan y môr ym Mhorth Ceri. Hon oedd noson ein barbeciw blynyddol. Diolch i bawb a fu'n gyfrifol am drefnu'r achlysur ac i'r ymwelwyr a ddaeth atom.

Bydd tymor y cylch plant bach ar fore Gwener yn dod i ben dros dro ym mis Gorffennaf. Mae'r plant bach a'r babanod wedi mwynhau cyd-chwarae, paentio a chael stori, ac mae'r mamau wedi gwerthfawrogi'r cyfle i gael sgwrs a phaned. Pob hwyl i'r plant fydd yn dechrau yn yr ysgol gynradd ym mis Medi.

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Dewi George a Leri Aaron ar eu priodas yn eglwys Ebeneser, Abertawe, yn ystod y gwyliau hanner tymor. Mae Dewi yn gyfieithydd ac yn dilyn cwrs ymarfer dysgu, ac mae Leri yn gweithio yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru.

Blin oedd gennym glywed fod Dr Ceinwen Thomas wedi cael ei chymryd i'r ysbyty dros dro. Dymunwn adferiad buan iddi.

## Salem Treganna

Cawsom dystio i fedydd Tomos Llywelyn, mab Rachel a Rhys Boore ar yr 16eg o fis Mehefin. Llongyfarchiadau mawr i'r ddau deulu.

Mae'r ystafell ieuenctid bellach wedi ei chwblhau, ac yn werth ei gweld. (Bydd angen sbectol haul!)

Cynhaliwyd gêm griced rhwng Salem ac Amgueddfa Werin Sain Ffagan yn ystod mis Mehefin. Cyfle i bawb ddangos eu doniau, ond yn anffodus colli wnaeth y tîm. Edrychwn ymlaen at nifer o gemau eraill sydd wedi eu trefnu yn ystod mis Gorffennaf.

Llongyfarchwn Gethin ar gario baton gemau'r Gymanwlad yng Nghaerdydd yn ystod mis Mehefin. Fe drefnwyd bod gwasanaeth yr hwyr yn hwyrach nag arfer er mwyn i ni fwynhau ei gefnogi.

**CIS (Cyfeillion Iau Salem h.y. pobl ifanc nid mor ifanc!)**
Cawsom dymor llwyddiannus o weithgareddau, gan gynnwys blasu gwin, helfa drysor a sawl pryd bwyd. Rhaid casglu syniadau nawr ar gyfer gweithgareddau'r flwyddyn nesaf.

## Tabernacl Caerdydd

**Llongyfarchiadau** i Lynette a David Hullah **ar enedigaeth eu hail wyr, sef** Adam James, **brawd i** Daniel Luke, **a mab i** Jo **(merch Lynnette a David)** a Martyn Pike.

Cynhaliwyd **Ffair Cymorth Cristnogol** yn festri'r Tabernacl fore Sadwrn, Mai 11eg Ar yr un diwrnod trefnwyd gorymdaith, yn dechrau yn City Church St Andrew's Place ac yna ar hyd Heol y Frenhines lawr i'r Ais.

Daeth tymor **Y Gymdeithas Nos Fawrth** i ben gyda'r gyngerdd fawr, ond bu'r pwyllgor yn bwrw ati i drefnu ar gyfer y tymor nesaf. Diolchwyd i Margaret Hemmings am ymgymryd â dyletswyddau'r llywydd ac i Megan Morris am ysgwyddo cyfrifoldebau'r ysgrifennydd. Mae'r swyddogion newydd wedi bwrw ati'n ddyheuig ac fe ddymunwyd yn dda i **Gwenallt Rees** (llywydd) a **Verina Matthews** (ysgrifennydd) gyda'u gwaith. Bydd **Jean Evans** yn parhau fel trysorydd.

Cynhaliodd **Cymanfa Dwyrain Morgannwg** ei chyfarfodydd blynyddol yn y Tabernacl ddydd Mawrth a dydd

parhad ar dudalen 9

# Plasmawr

### Diwrnod Mabolgampau

Cynhaliwyd diwrnod mabolgampau'r ysgol eleni ar Ddydd Gwener, Mai 17eg yn Stadiwm Lecwydd. Er ei bod yn bwrw glaw trwy'r dydd cafwyd diwrnod i'w gofio! Fe wnaeth yr holl gystadleuwyr eu gorau ymhob cystadleuaeth ac fe lwyddodd sawl un i dorri record yr ysgol. Llys Curig oedd yn fuddugol a chafodd pencampwyr unigol y dydd eu gwobrwyo – Erin Dafydd a Luke Stanbury o flwyddyn 7, Laura Walbeoff a Rhys Thomas o flwyddyn 8, Rebecca Williams a Matthew Williams o flwyddyn 9 ac Amy Williams a Gethin Thomas o flwyddyn 10. Llongyfarchiadau mawr iddynt.

### Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i bawb a gynrychiolodd yr ysgol yn Eisteddfod yr Urdd eleni. Cafwyd llwyddiant ar y llwyfan ac yn y cystadlaethau gwaith cartref.

Llongyfarchiadau mawr i'r canlynol:
Cyflwyniad llafar hyn - 2il, Cyflwyniad llafar iau - 3ydd, Cân Actol - 2il, Ensemble o dan 25 - 2il, ac i Mali Llywelyn a ddaeth yn 1af yng nghystadleuaeth piano dan 19 ac yn 2il yn y gystadleuaeth canu'r delyn o dan 19.
Ffion Rhisiart - 3ydd am farddoniaeth Oedran Blwyddyn 7, Ieuan Wyn - 3ydd am gyfansoddi cân ysgafn fodern dan 25oed, Rebecca Barratt - 2il am galigraffeg Oedran Blynyddoedd 10 ac 11, Sian Coodye - 3ydd am galigraffeg Oedran Blynyddoedd 10 ac 11, Matthew Wilson - 3ydd am waith tecstiliau creadigol 2D Oedran Blwyddyn 9, Heulwen Rees - 1af am waith creadigol 3D Oedran Blynyddoedd 10 ac 11, Rebecca Thomas - 3ydd yng nghystadleuaeth Dylunio a Thechnoleg Oedran Blynyddoedd 10 ac 11 a Ruth Davies - 3ydd am farddoniaeth Oedran Blynyddoedd 12 a 13.

### Perfformiad Hindwaidd



Ym mis Ebrill ymunodd disgyblion Glantaf â disgyblion Plasmawr i weld perfformiad gwefreiddiol o Stori Ramayana. Gan ein bod wedi bod yn astudio y Ramayana (Gŵyl Hindwaidd) yn ein gwersi Addysg Grefyddol, fe ddaeth y stori yn fyw i ni ar y llwyfan trwy'r cymeriadau lliwgar. Perfformiwyd y sioe gan actorion profiadol o Lundain. Roedd y grŵp brwdfrydig wedi teithio o amgylch y byd yn perfformio. Gwelsom fel y cafodd y Tywysog Rama a'r Dywysoges Sita eu hanfon o'u teyrnas a mynd gyda Lankshman i fyw yn y goedwig. Ar ôl nifer o ddigwyddiadau cyffrous gwelwyd sut y llwyddodd y ddau i ddychwelyd i'w teyrnas. Roedd yr actio'n dda a'r gwisgoedd yn lliwgar. Y cymeriad mwyaf doniol ym marn nifer o'r disgyblion oedd y mwnci Hanuman achos ei fod yn arwr mewn ffordd annisgwyl. Mwynhaodd pawb y perfformiad ac roedd yn wych cael y cyfle i weld y stori'n cael ei pherfformio. Yn ogystal â mwynhau fe ddysgom lawer am ddiwylliant gwlad yr India.

**Heledd Watts, Elen Roberts, Eleri Jones (Bl. 7)**



### Theatr y Globe

Gadawodd y bws Ysgol Plasmawr am hanner awr wedi wyth fore dydd Mawrth Mehefin 11, er mwyn cychwyn ar y daith i Lundain. Cyrhaeddom Llundain tua hanner awr wedi un ac fe gerddom am beth deimlai fel milltiroedd at y theatr. Ar y ffordd yna, aethom heibio protest dynion tân; roedd tua 200 o ddynion tân yn cerdded i lawr y stryd fawr! Roeddynt yn rhoi sticeri a hetiau plastig i bobl am ddim.

Ar ôl mynd dros Bont y Mileniwm fe wnaethom gyrraedd y theatr, ac roedd yr olwg gyntaf yn un gwahanol iawn i bawb. Yn bersonol, roeddwn yn gweld y theatr yn eithaf bach o'i gymharu â llawer o'r siopau ac adeiladau sydd yn Llundain. Roedd y perfformiad o 'A Midsummer Night's Dream' yn dechrau am ddau o'r gloch. Roeddem yn eistedd ar y llawr gwaelod ac felly roedd to uwch ein pennau, ond petaem wedi cerdded ychydig droedfeddi fe fyddem wedi bod yn yr awyr agored! Yn ffodus, roedd gennym seddi, yn wahanol i rai pobl a oedd yn sefyll tu allan wrth ymyl y llwyfan.

Roedd y ddrama yn un ddoniol iawn yn fy marn i. Gwisgai'r actorion ddillad nos ac roeddynt yn defnyddio propiau gwahanol, er enghraifft brwsus dannedd fel cleddyfau. Fe fwynhaodd pawb y perfformiad er bod y ddrama yn eithaf anodd i'w deall. Roeddem i gyd yn ôl ar y bws erbyn hanner awr wedi pedwar a chyrhaeddom yr ysgol am hanner awr wedi naw. Cefais ddiwrnod gwahanol, diddorol a phleserus iawn.

**Eirian Xerri (Bl. 9)**

# YSGOL GYFUN BRO MORGANNWG

Llongyfarchiadau i Owain Davies a Thomas Harris ar eu llwyddiant yn y gystadleuaeth fathemategol a drefnwyd gan Gymdeithas Wyddonol Cymru. Gwobrywyd y ddau mewn seremoni arbennig ar y dydd Iau yn ystod withnos Eisteddfod yr Urdd.

Llongyfarchiadau i Thomas Blumberg ar ennill cystadleuaeth 'Cyfansoddwr Cymru Classic FM categori Cyfnod Allweddol 3. Fe fydd dros 400 o athrawon cerdd ledled Cymru yn Neuadd y Ddinas, Caerdydd ar Fehefin 21 i weld Tom yn derbyn ei siec a'i dystysgrif oddi wrth brifweithredwr 'Classic FM. ac i glywed perfformiad o'i gyfansoddiad "Croeso".

### Eisteddfod yr Urdd Caerdydd a'r Fro

Llongyfarchiadau i Miriam Isaac a Daisy Evans ar ddod yn ail yn y ddeuawd o dan 15 oed. Llongyfarchiadau i'r grwp dawnsio gwerin o dan 15 oed a'r grŵp roc ar ennill y wobr gyntaf yn Eisteddfod yr Urdd, Caerdydd a'r Fro. Hoffem ddiolch i'r holl athrawon, disgyblion a rhieni am eu hymroddiad.

# Glantaf

### Noson Gymdeithasol yng Nglantaf

Cynhaliwyd y Noson ar 27 Ebrill gyda Delwyn Sion a'i ffrindiau yn darparu'r adloniant o dan y teitl 'Dyddiau Da', ac mi roedd hi'n noson arbennig o dda hefyd wrth gyfuno caneuon hen a newydd i blesio pawb. Ar ôl yr egwyl, canodd Delwyn dair cân ar y piano gan ddangos ei ddawn arbennig i greu awyrgylch bersonol, deimladwy; hwn yn gyferbyniad i weddill y noson pan unodd gyda'r band mewn cyflwyniad o ganu gwerin a roc.

Difyrwch o fath gwahanol yn ystod yr egwyl oedd cynnal Osciwn a thynnu Raffl Fawr y Flwyddyn, gyda chymorth bywiog Kevin Davies o Radio Cymru. (Enillydd y Brif Wobr Raffl o £250 oedd y Teulu Cleverly o Gyncoed – Llongyfarchiadau!)

Diolch felly i'r cwmnïau/unigolion canlynol am eu rhoddion hael ar gyfer yr achlysur: *YC Sports, Marks & Spencers, James & Jenkins, Siop y Felin, Garlands (Llandaf), Thornes (Ystum Taf), Gwesty'r Hilton, Canolfan David Lloyd, TGI Fridays, Aquarius (Rhiwbina), Juboraj (Rhiwbina), Earl's (Llandaf), Hairhouse (Llandaf), Town & Country Gift Shop (Llandaf), Mrs Carys Burston (Glantaf), Y Teulu Meggie (Parc y Rhath), Clwb Criced Morgannwg, Clwb Rygbi Caerdydd, Waterstones a Radio Cymru.*

Ac yn olaf, diolch yn fawr i bawb arall a gyfranodd tuag at lwyddiant y noson, gan gynnwys, wrth gwrs, y gynulleidfa werthfawrogol a hael.

### Yn dawel dros y tlawd

Yn dilyn gwylio fideo ar rai o broblemau'r trydydd byd, bu rhai o aelodau Clwb Cristnogol yn Ysgol yn gwneud gwahanol weithgareddau er mwyn codi arian ar gyfer cronfa Tearfund. Cynhaliwyd stondin cacennau ddau amser egwyl ac bu tri disgybl Rhodri, David ac Anna yn cynnal diwrnod noddi tawelwch. Bu'r holl weithgareddau yn hynod o lwyddiannus a daeth Mrs Gwen Emyr i mewn i'r ysgol i dderbyn siec am £170 ar ran Tearfund.



*Mrs Gwen Emyr yn derbyn siec gan Rhodri ab Owain tuag at waith Tearfund*

### Eisteddfod yr Urdd

Llongyfarchiadau i holl ddisgyblion yr ysgol a gymerodd ran mewn unrhyw fodd yn Eisteddfod yr Urdd yng Nghaerdydd eleni. Roedd yn flwyddyn arbennig o lwyddiannus ac enillodd yr ysgol 18 gwobr ar y llwyfan a 22 gwobr am waith cartref. Gwelwyd disgyblion yr ysgol hefyd yn y sioeau cerdd, yn tywys cystadleuwyr ar y llwyfan, yn cymryd rhan yn rhai o brif seremoniau'r wythnos ac yn helpu ar stondin yr ysgol. Rhaid cofio hefyd am John Petty a luniodd y Gadair hardd. Diolch i'r athrawon am eu gwaith dros fisoedd lawer yn hyfforddi a pharatoi'r disgyblion.



### Pêl-rwyd i fechgyn

Tua mis a hanner cyn gwyliau'r Pasg roedd cyffro mawr, roedd merched y tîm pêl-rwyd eisiau dod a bechgyn i'r ymarferion i gael tîm i fechgyn. Yn gyntaf roedden ni i gyd yn meddwl dim amdano tan soniodd ein hathrawes Ymarfer Corff am dwrnament Pel-rwyd Coca-Cola i fechgyn a merched. Wedyn roedd grŵp o fechgyn yn dod yn rheolaidd i'r ymarferion lle bydden ni'n gwneud dril pasio neu saethu, wedyn chwarae gêm timau cymysg neu fechgyn yn erbyn merched.

O'r diwedd daeth y twrnament ac roedd pawb yn eu cit ac yn barod i chwarae. Fe aeth y merched i ganolfan UWIC yn bws mini'r ysgol a chafodd y bechgyn lifft gydag un o'n rhieni ni. Roedd y gemau yn hwyl i chwarae gan fod y merched a'r bechgyn yn ein cefnogi a phawb yn gwylio. Yn y diwedd galwyd yr enillwyr a daethom ni'n ail, y wobr oedd bag Coca-Cola yn llawn bibs, peli, pwmp a nifer o bethau eraill. Roedd yr holl dîm wedi cael amser gwych a mwynhaeon ni'n fawr.

**Andrew Harries**

### Dathlu hanner can mlwyddiant Addysg Gymraeg ym Mro Morgannwg

Eleni dethlir hanner can mlwyddiant Addysg Gymraeg yn y Fro ac mae Pwyllgor y Dathlu wedi trefnu nifer o weithgareddau. Dechreuwyd ar y dathliadau ar 8 Mai yn Ysgol Gyfun Bro Morgannwg a Neuadd Goffa'r Barri ac ar 6 Gorffennaf cafwyd hwyl a phicnic ar safle'r Ymddiriedolaeth Amelia dan nawdd RHAG Y Fro. Bwriedir cynnal Cinio yng Ngwesty'r Mount Sorrel y Barri ar 28 Medi a bydd Cinio a Dawns yn Neuadd Goffa'r Barri ar 30 Tachwedd a cheir Cyngerdd gan Ysgolion Cymraeg y Fro yn Neuadd Goffa'r Barri ar 10 Rhagfyr a gorffen y flwyddyn o ddathlu gyda gwasanaeth yng Nghapel y Tabernacl, Y Barri. Am ragor o fanylion am y digwyddiadau uchod cysylltwch â Carys Hall Evans ar 01446 721236.

## Ysgol y Mynydd Bychan

Eleni, enillodd Ysgol Mynydd Bychan, Caerdydd, wobr yng nghystadleuaeth 'Artworks': Gwobr Celfyddwr Ifanc y Flwyddyn. Mae'r ysgol yn derbyn £2,000 ar gyfer ei hadran gelf, yn ogystal â phrint unigryw wedi ei lofnodi gan yr alunydd byd-enwog, Anish Kapoor. Bydd y gwaith buddugol yn cael ei gynnwys mewn arddangosfa yn Oriel y Tate Fodern yn Llundain am fis, cyn cychwyn ar daith o amgylch y wlad dros yr Haf.

Aeth rhai o'r plant a fu'n gysylltiedig â'r gwaith i'r seremoni wobrwyo yn Oriel y Tate Fodern ar ddydd Iau, Mehefin 20, Diwrnod Cenedlaethol Celf Plant. Cafodd y seremoni ei chyflwyno gan gynhyrchydd yr Oriel, Syr Nicholas Serota.

Trwy weithio'n agos â 'Ffotogallery' cafodd y plant y cyfle i ymgorffori y gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn, a hyn yn cwmpasu nifer o bynciau'r Cwricwlwm. Dysgont lawer am Fae Caerdydd ynghyd â sgiliau newydd megis ffotograffiaeth ddigidol sy'n defnyddio Technoleg Gwybodaeth. Ymgorfforwyd y gwaith ar ffurf CDROM.

Bu 39,000 o blant, o 500 ysgol yn cystadlu eleni ar gyfer y wobr ac mae'r ysgol yn falch iawn i dderbyn yr anrhydedd hon ac yn gwerthfawrogi ei bwysigrwydd. Llongyfarchiadau blant!

Cawsom ddiwrnod i'w gofio ar ddydd Mawrth, 18 Mehefin pan gynhaliwyd ein Mabolgampau blynyddol. Eleni, aethom i Gae Maindy ac fe gafodd pob plentyn gyfle i berfformio eu sgiliau athletaidd. Llongyfarchiadau i Lys Elai, enillwyr y dydd.

Llongyfarchiadau i Anne Willey, athrawes blwyddyn 5, ar ei dyweddïad â Terry Fenner. Pob dymuniad da iddynt.

Dymunwn yn dda i'n prifathrawes Mrs Ann Williams wrth iddi hi wella ar ôl triniaeth yn yr ysbyty.

## LLWYDDIANT YSGUBOL YSGOL IOLO

Bu Eisteddfod yr Urdd eleni Caerdydd a'r Fro yn achlysur i'w gofio i Ysgol Iolo Morganwg, Y Bont Faen. Fel y gwyddom i gyd mae cyrraedd y Genedlaethol yn dipyn o gamp, a chyrraedd y llwyfan yn fwy o gamp fyth. Ond gwnaeth Ysgol Iolo hynny eleni mewn TAIR cystadleuaeth!

Dyfarnwyd y wobr gyntaf iddynt yng nghystadleuaeth y Côr o dan 12 oed o dan eu harweinydd ysbrydoledig Eleri Roberts.

Un o rieni'r ysgol, Jen Denham, sy'n gyfrifol am y bwrlwm gweithgarwch recorders yn Ysgol Iolo a hi fu'n hyfforddi'r Parti Recorders o dan 12 oed a gipiodd yr ail wobr.

Yn ail hefyd daeth y Parti Dawnsio Gwerin o dan 12 oed. Rydym yn gyfarwydd iawn â doniau dawnsio'r ysgol a braf oedd gweld gwaith medrus Nia Tough ac Alun Roberts – dau o athrawon yr ysgol – yn cael ei wobrwyo.

Ein llongyfarchiadau mwyaf iddynt a'n diolch i'r holl ddisgyblion am eu hymdrechion arbennig ac i'r unigolion hynny a fu mor allweddol yn eu cyfarwyddo.



## Ysgol Coed y Gof

Ar fore Sadwrn, Ebrill 27 daeth taith gerdded Ian Botham o Fachynlleth i Gaerdydd i ben. Ymdrech oedd y daith gerdded yma i godi arian tuag at Apêl Arch Noa, Ysbyty Plant Cymru. Cymru yw'r unig wlad yng Ngorllewin Ewrop heb ysbyty plant dynodedig. Cyn cychwyn ar y cam olaf o'r Ganolfan Hamdden yn y Barri daeth 6 o blant yn cynrychioli Ysgol Coed y Gof i'w gyfarch ac i gyflwyno siec am £1,700 iddo. Dyma un o'r symiau arian mwyaf a gasglwyd gan unrhyw ysgol yng Nghymru.



*Plant Ysgol Coed y Gof yn cyflwyno siec i Ian Botham*

### BARDD PLANT CYMRU 2002/3

Yn ystod Eisteddfod yr Urdd yng Nghaerdydd cyhoeddwyd mai Menna Elfyn, Llandysul fydd Bardd Plant Cymru am y flwyddyn 2002/3. Bydd hi'n dilyn ôl traed Myrddin ap Dafydd (2000/1) a Meirion McIntyre Huws (2001/2). Bydd hi'n dechrau ar ei dyletswyddau yn ystod Wythnos yr Eisteddfod Genedlaethol yn Nhy Ddewi.

### DYSGU YN Y WLADFA

Lwc dda i Pedr MacMullen ardal Lecwydd ar ei daith i'r Wladfa i ddysgu Cymraeg yn y Gaiman yn Nyffryn Camwy am chwe mis.

### CELFYDDYD AR BLÂT YM MHENCADLYS DIWYLLIANT

Daeth darn hynod o gelfyddyd i feddiant Caerdydd 2008 – y gwaith celf gwreiddiol ar gyfer plât dathlu Eisteddfod yr Urdd Caerdydd 2001 – yr Eisteddfod na fu.

Dyluniwyd plât Urdd 2001 gan yr artist o Gymro, Iwan Bala, a chan mai dim ond nifer bach ohonynt a gynhyrchwyd, mae'r plât yn rhywbeth i'w drysori. Pan ddangoswyd y gwaith celf gwreiddiol yn Eisteddfod yr Urdd eleni, ennynnodd ymateb brwd gan y cyhoedd, ac fe ddaliodd sylw Caerdydd 2008. Cyn hir, gall y cyhoedd wledda ar waith gwreiddiol Iwan Bala, â'i ddehongliad difyr o'r Urdd yng Nghaerdydd, yn yr Hen Lyfrgell, yn yr Ais.

**Taith Feicio Elusennol o Gaerdydd i Fenllech, Ynys Môn**

Codi arian i Apêl Arch Noa a Chylch Meithrin Rhiwbina oedd bwriad Gareth a Wendy Rowlands, Llysfaen wrth seiclo o Gaerdydd i Fenlech ar Ynys Môn. Felly, ar fore heulog ar ddechrau Mis Mai dechreuwyd ar y daith. Mynydd Caerffili oedd yr allt gyntaf iddyn nhw wynebu! Dilynon nhw y Llwybr Beicio Cenedlaethol ond aethon nhw ar goll ynghanol Mynyddoedd Aberhonddu ar y diwrnod cyntaf er bod mapiau hefo nhw! Bydd rhaid gwneud yn siwr y tro nesa na fydd neb wedi troi'r arwyddion ar y Llwybr! Cafwyd wythnos ddiddorol ynghanol haul a gwynt a glaw Bu'n werth gwneud y daith er mwyn mwynhau y golygfeydd heb sôn am y bwriad gwreiddiol o godi arian at Apêl Arch Noa a Chylch Meithrin Rhiwbina. Llwyddwyd i godi dros £650 ac felly teimlon nhw ei fod wedi bod yn werth yr ymdrech er gwaethaf ambell glais a chur!

## Cefnogi "*Shelter Cymru*"

Mae S4C wedi dewis yr elusen *"Shelter Cymru"* fel eu helusen arbennig nhw am 2002 ac fel rhan o'r ymgyrch i godi arian at yr elusen hon mae'r cogydd adnabyddus Dudley Nerbery wedi cyhoeddi llyfryn dwyieithog o'r enw "Cawlach Dudley"/"Souped Up" ac mae o ar werth am £1 – bargen! Gellwch gael copi o'r llyfryn drwy ffonio 0870 600 4141. Pe baech yn fodlon gwerthu copïau o'r llyfr i'r teulu a ffrindiau ac ati rhowch wybod ar y rhif uchod. Bydd ar werth ar Faes Eisteddfod Genedlaethol Tŷ Ddewi hefyd. Fellym mynnwch gopi!

**Diolch am Wasanaeth**

Ar ôl pum mlynedd o fod yn gyfrifol am anfon *Y Dinesydd* at dros 70 o danysgrifwyr y papur mae Haydn Jones, Rhiwbina yn ymddeol o'r gwaith ond mae Pwyllgor *Y Dinesydd* am fynegi eu diolch mwyaf diffuant iddo am ei flynyddoedd o wasanaeth gwirfoddol i'r papur.

---

*Newyddion Tabernacl o dudalen 5*

Mercher, Mai 14 a 15. Ar y nos Fawrth cyflwynodd Iestyn Davies bortread o weithgareddau newydd, cyffrous Cyngor Alcohol a Chyffuriau Eraill, ac ar y Nos Fercher cafwyd pregeth gan y Parchg Desmond Davies, Caerfyrddin, llywydd Undeb Bedyddwyr Cymru.

Dymunwyd yn dda i Mair Rice, merch Mansel a Mary Evans, ar ei phriodas gyda John Paton, sy'n weinidog gydag eglwys y Nasareniaid. Byddant yn byw yng Ngogledd Iwerddon. Cynhaliwyd y briodas yn y Tabernacl ar Sadwrn olaf mis Mehefin.

Rhaid diolch i bawb a fu â rhan yng nghasgliad arian yn enw Cymorth Cristnogol yn ystod mis Mai, ac yn arbennig felly i Mary a Graham Thomas am gydlynu'r gweithgarwch. Gwireddwyd £451 –53 eleni o blith trigolion Ystad Lady Mary.

Derbyniwyd gair o ddiolch oddi wrth Alan Kemp ar ran Clwb Rotari Caerdydd i bawb yn y Tabernacl oedd wedi cyfrannu at y ddau achos **'Trade for Self Reliance'** a **'Sbectol i bobl yn y Trydydd Byd'**. Mae'r offer a gafodd eu cyflwyno wedi cael eu hadnewyddu gan grwp brwdrydig o wirfoddolwyr yng Nghrughywel cyn eu danfon allan at grefftwyr yn y Trydydd Byd. Mae'r sbectolau wedi cael eu glanhau a'u mesur yn optegol gan arbenigwyr cyn eu danfon allan i'r gwledydd hyn. Mae'r ddau gorff yn parhau i dderbyn pob rhodd, ac fe fyddai Alan yn barod i dderbyn unrhyw offer neu sbectolau ar eu rhan. Mae'r angen yn ddiderfyn, felly cysylltwch ag Alan os oes modd i chi helpu.

## Pedair Cyfrol Newydd gan Wasg Carreg Gwalch

Ail argraffiad ydy un o'r cyfrolau sef "Jac Jamaica" gan y diweddar Dafydd Parry, Llanrwst ac yn addas i blant oed ysgolion cynradd a'i bris yn £3.99.

Mae "Cri o'r Gorffennol" sef addasiad Eirian Youngman o nofel gan Kathryn Willett hefyd yn addas i blant oed ysgolion cynradd a'i bris yn £3.99

Nofel arloesol ydy "X" gan Geraint Lewis, yr awdur dramâu a sgriptiau teledu sy'n enedigol o Dregaron ond yn byw yng Nghaerdydd bellach. Pris y nofel gyntaf hon ydy £5.95.

Ymddangosodd y gyfrol "Caerdydd a'r Cymoedd" yn y gyfres *Broydd Cymru* gan Gareth Pierce ym mis Mai. Dylai fod o ddiddordeb arbennig i Ddarllenwyr *Y Dinesydd.* Ei phris ydy £4.50.

## Coleg Cerdd a Drama Cymru

Yn ystod ymweliad y Frenhines â Chymru yn ystod y dathliadau'r Jiwbilî Aur cyhoeddwyd y bydd hawl gan y Coleg Cerdd a Drama i'w alw yn Goleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru o hyn allan. Dim ond pump conservatoire arall ym Mhrydain sy'n rhannu'r anrhydedd hon. Mae'r Tywysog Siarl yn un o noddwyr y Coleg.

## Eglwys Dewi Sant

Cawsom gyfle i ddathlu llwyddiant dau o aelodau Eglwys Dewi Sant ar ôl y gwasaneth boreol ar Fehefin 9. Rhaid oedd llongyfarch **Grahame Davies** ar ôl iddo ennill gwobr Llyfr Cymraeg y Flwyddyn am ei gyfrol o farddoniaeth "Cadwyni Rhyddid". Cyhoeddwyd enwau'r enillwyr yn ystod Gŵyl Lenyddiaeth y Gelli Gandryll. Disgrifia Grahame y gyfrol fel casgliad o gerddi sy'n dychanu'r gymdeithas Gymraeg Yng Nghaerdydd y mae'n rhan ohoni erbyn hyn. Cyn symud i weithio i BBC Cymru, roedd Grahame yn newyddiadurwr ym Merthyr, felly mae'n tynnu ar y profiad o fyw mewn dwy gymdeithas tra gwahanol yn ei gerddi. Bardd arall a fu'n siarad am ei gwaith yn y Gelli, cyfrol o ryddiaith y tro hwn o'r enw *Sunbathing in the Rain,* oedd **Gwyneth Lewis**. Mae Gwyneth ar fin ffarwelio â ni er mwyn hwylio o gwmpas y byd yn ystod y pedair blynedd nesaf. Dymunwn yn dda iawn iddi hi a'i gŵr ar eu siwrnai gyffrous.

Llongyfarchiadau hefyd i **Cennydd Amos** sydd wedi cael ei benodi'r Bennaeth Cemeg yn Ysgol Plasmawr. Athro arall a fydd yn newid swydd ond yn teithio tipyn ymhellach ydy **Rhodri Mears**, sy'n dysgu ar hyn o bryd yn Ysgol y Wern ond sy wedi cael swydd Yng Nghorc yn Iwerddon. Bydd yr ysgol yn siwr o elwa o'i dalent cerddorol a'i brofiad fel hyfforddwr rygbi llwyddiannus gyda C.R.I.C.C.

Llongyfarchiadau i **Falmai Griffiths**, Rhiwbina ar ei gwaith fel un o'r beirniad llefaru yn Eisteddford yr Urdd yng Nghaerdydd.

## Cystadleuaeth y Fedal Rhyddiaith

**Eisteddfod Genedlaethol Maldwyn a'r Gororau 2003**

Penderfynwyd cyhoeddi manylion y gystadleuaeth uchod yn awr gan fod newid yn y dyddiad cau.

Gofynnir am: Cyfrol o ryddiaith heb fod dros 40,000 o eiriau gyda chysylltiad amaethyddol.

Y beirniaid a wahoddwyd: Eirug Wyn, Jane Edwards, Gwyn Erfyl. Bydd yr enillydd yn derbyn y Fedal Rhyddiaith a £750, y wobr ariannol a'r fedal yn rhoddedig gan Gwyneth Lloyd, Maerdy, Corwen er côf am ei gŵr D. Tecwyn Lloyd.

Dyddiad cau y gystadleuaeth fydd: 2 Rhagfyr 2002

Os am fanylion pellach yna cysyllter â Threfnydd yr Eisteddfod ar 0845 122 2003.

## Y Border Bach

gan Hwn a Hon



Mae'n dymor y gwyliau ac mae'n siŵr bydd nifer ohonoch yn diflannu i'r cyfandir neu dros Glawdd Offa am seibiant. Ond i'r rhai ohonoch sydd am aros yng Nghymru beth am ddiddori eich hunain drwy chwilio am erddi hanesyddol?

Mi fyddai gardd ganoloesol Owain Glyndŵr wedi bod yn werth ei gweld yn ôl y disgrifiad ohoni gan Iolo Goch. Roedd yn Sycharth berllan, gwinllan, llynoedd, peunod, ceirw ac yn y blaen, ond am ardd o'r un cyfnod beth am drip i Dretŵr ger Crughywel. Yno mae gardd Syr Roger Vaughan o'r 15fed ganrif wedi ei hail-greu. Gardd dyn y llys yw hon gyda phergola hir i gerdded ar hyd-ddi wedi'i gorchuddio â rhosod a gwyddfid. Mae yna welyau ar ffurf sgwariau o flodau'r cyfnod yn tyfu ar yn ail a sgwariau o wair, a meysydd o flodau gwyllt.

Os ydych am fynd mwy i'r Gogledd yna beth am Gastell Powys ger y Trallwng. Mae'r ardd hon yn fyd-enwog ac yn un o'r rhai mwyaf poblogaidd ym Mhrydain. Mae'r castell ei hun yn dyddio o tua 1200 ac yn sefyll ar ben tir uchel yn edrych allan dros y terasau nodedig a grewyd yn yr 17fed ganrif. Maent yn dilyn steil gerddi'r Eidal a Ffrainc.

Os am fynd i'r Gorllewin yna'r lle i fynd eleni yw Llanerchaeron ger Aberaeron. Ystâd i sgweiar lleol o'r 18fed ganrif yw hon. Adeiladwyd y tŷ gan John Nash (a oedd yn rannol gyfrifol am Balas Buckingham). Fe oroesodd y lle tan ddiwedd yr 20fed ganrrif heb fawr o newid. Eleni agorir y tŷ am y tro cyntaf i'r cyhoedd gan yr Ymddiriedaeth Genedlaethol. Mae pobl leol wedi gweithio i glirio'r ystâd ac adnewyddu'r gerddi. Cynhelir y lle fel fferm organig ac mae'r ddwy ardd gaeëdig yn cynhyrchu ffrwythau a llysiau.

Ond os nad ydych am fynd yn rhy bell o Gaerdydd yna mae Gerddi Dyffryn San Niclas ar ein stepen drws. Cynlluniwyd rhain yn y cyfnod Edwardaidd gan Thomas Manson ar gyfer John Cory, a chasglwyd nifer o'r planhigion a'r coed gan ei fab, Reginald Cory, ar ei deithiau o gwmpas y byd. Mae yna nifer o 'ystafelloedd' allanol yn debyg i'r hyn a welir yng ngardd enwog Hidcote yn Swydd Caerloyw. Dywed rhai i gynllunydd yr ardd honno gael ei syniadau ar ôl gweld Gerddi Dyffryn. Mae gwaith mawr yn cael ei wneud ar y gerddi ar hyn o bryd i'w dychwel yn ôl i'w gogoniant gwreiddiol. Mae peth o'r gwaith wedi ei gwblhau yn barod, ond bydd yn parhau am beth amser eto.

Ble bynnag yr ewch yr Haf yma, chwiliwch allan am erddi â hanes iddynt a dewch â'r syniadau adref i ail-greu tipyn o hanes yn eich border bach chi.

## Ar y CYD...

yng ngofal Lynne Davies

Yn syth cyn amser gwely yn aml iawn mae'r gath yn penderfynu mynd ma's i'r ardd. Os nad yw hi'n rhy wlyb rwy'n mynd gyda hi weithiau. Mae'r ardd mor wahanol yn y tywyllwch neu dan oleu lleuad. Ac, wrth gwrs, mae poblogaeth arall yn ymddangos yno yn y nos. Os ydych chi'n lwcus, gallech weld un o greaduriaid y nos, megis draenog neu ystlum. Mae'r dyn drws nesa' yn dal gwyfynod – mae'n rhoi trap yn yr ardd dros nos gyda golau llachar ac yn y bore mae'n gweld pa fathau gwahanol o wyfynod mae e wedi eu dal. (Yna, mae'n gadael iddyn nhw fynd.) Mae llawer mwy o amrywiaeth o wyfynod nag o ieir bach yr haf, ac mae llawer ohonyn nhw mor hyfryd, yn yr un ffordd mae llun *sepia* weithiau'n gallu rhagori dros lun lliw. Ond mae creaduriaid llai derbyniol, fel y malwod sy' wedi bwyta hanner fy *petunias* eleni! Efallai gallai hwn a hon roi cyngor sut i ddelio â'r creaduriaid hyn rywbryd...

**Geirfa**

| | |
|---|---|
| penderfynu – *to decide* | mathau – *types* |
| poblogaeth – *population* | amrywiaeth – *variety* |
| ymddangos – *appear* | rhagori – *be better* |
| draenog – *hedgehog* | derbyniol – *welcome* |
| ystlym – *bat* | malwod – *snails* |
| gwyfynod – *moths* | cyngor – *advice* |

## "Yr Awr Hapus" – Clwb i Ddysgwyr

Mae'n dda gen i gyhoeddi bod yr Awr Hapus o hyd yn fyw ac yn iach wedi ein cyfarfod cyntaf ar 19 Tachwedd llynedd.

Fe gofiwch ein bod yn cyfarfod bron pob bore Llun yn nhafarn Gwesty Pentre, Ffordd Pendwyallt, Coryton, drws nesaf i Archfarchnad Asda, ger cyffordd 32, M4.

Erbyn hyn sef diwedd mis Mai, rydym ni wedi cyfarfod 23 o weithiau ac mae 37 o unigolion wedi ymuno â ni o leiaf unwaith. Cyfanswm y 23 cyfarfod oedd 187 felly mae 8 ar gyfartaledd wedi mynychu am awr ar foreau Llun.

Diolch i bawb am ddod. Mae tri wedi bod yn hynod ffyddlon sef Ioan (John) a'i wraig Thelma, a Barbara. Dim ond pum awr mae'r tri hyn wedi colli!

Diolch yn fawr i Westy Pentref am gefnogi'r Clwb Siarad Cymraeg yn swyddogol am chwe mis. Y newyddion da yw ein bod wedi cael tri mis ychwanegol. Diolch yn arbennig i Ceri Bevan, rheolwraig y Clwb Hamdden am drefnu hyn.

Mae aelodau'r awr hapus wedi derbyn nifer fawr o ffotocopïau o ddeunydd Cymraeg amrywiol ers Tachwedd. Rydym yn ddiolchgar iawn i'r Gwesty am ei gefnogaeth ymarferol. Diolch hefyd am gyflenwad ychwanegol o gylchgrawn lliwgar Cwmni Acen.

Da yw dweud bod Pwyllgor Diwylliant y Cynulliad Cenedlaethol ym Mae Caerdydd yn cefnogi ein hymdrechion. A dyfynnu geiriau cadeirydd y pwyllgor Rhodri Glyn Thomas, AC: "mae'n amlwg fod yr 'Awr Hapus' yn llwyddiant mawr. Da yw clywed am y datblygiadau hynny ... Rwy'n fawr hyderu y bydd yr arolwg o sefyllfa'r iaith Gymraeg yng Nghymru yn gallu creu strwythurau a fydd yn hwyluso ac yn cefnogi eich gweithgaredd."

Meddyliais y basai hi'n syniad da i gefnogwyr yr awr hapus brynu copïau o CANWN! Ceir 102 cân ynddo am £1.95. Casglais £2 y pen ond wedi galw yn "Siop y Felin" darganfyddais ei fod allan o brint! Ond y newyddion da ydy fy mod wedi llwyddo i brynu 6 chopi ohono ym marchnad Pontypridd am £1.50 y copi! Bydd rhaid i ni gael cân neu ddwy, wedi deall y geiriau wrth gwrs, i dwymo'r galon ar fore Llun!

Felly, beth am ddod draw i'n gweld? Bydd croeso cynnes yn eich aros. Cofiwch am ein cinio diwedd blwyddyn yn y gwesty am ganol dydd, ddydd Llun, 8 Gorffennaf.

**Gwilym Dafydd**


CAERDYDD
a'r Fro
# Urdd 2002
## Lluniau o'r Ŵyl



*Band Dur Ysgol Uwchradd Fitzalan yn canolbwyntio yn yr Eisteddfod!*



*Yn tydy bywyd yn hwyl?*

**AEGIS YMGYNGHORWYR ARIANNOL ANNIBYNNOL CYF**

*Am gyngor ariannol annibynnol cysylltwch â*

## Geraint B. Llewelyn

MLIA (DIP)

**291 Ffordd Cyncoed, Cyncoed, Caerdydd, CF23 6PA**

**Ffôn: (029) 20228223 Ffacs: (029) 20761309**

E-bost: aegis-ifa@supanet.com

Aelod o DBS Rheolaeth Ariannol CCC a oruchwilir gan Awdurdod Buddsoddi Personol

## AR WERTH

## Telyn Geltaidd MORLEY ELYSIAN

£1,000

Ffoniwch: 01443 223828 (gyda'r nos)

*Ydy **Alcohol** yn costio mwy nag arian i ti?*

Paid digalonni! Mae 'na ateb!

AA

**Alcoholigion Anhysbys**

Ffonia **0845 7697555** a gofyn am gael sgwrs **yn Gymraeg** gyda rhywun sy'n deall.

## GWRES GWYN

Oes rhywun wedi gwasanaethu eich bwyler eleni? Nac oes?

Cysylltwch â Gwyn Rhys Jones

Gosodwr Cofrestredig Rhif 190209

82 Pendwyallt, Yr Eglwys Newydd

**07974 80 30 89**

gosod a symud rheiddiaduron, adnewyddu bwyleri ac ystafelloedd ymolchi, diweddaru systemau ac unedau rheoli, darganfod a datrys namau mewn systemau, tystysgrifau diogelwch

## TRYDANWR

gyda dros 20 mlynedd o brofiad

Ailweirio, gosod systemau larwm a chawodydd

*Prisiau Rhesymol*

Ffoniwch

**Caerwyn Davies**

ar **029 20868208**

neu **07967 558664**

**www.cardiff.ac.uk/jobs**

CARDIFF UNIVERSITY

PRIFYSGOL CAERDYDD

## Derbynnydd/Ysgrifennydd/ Ysgrifenyddes

**Canolfan Iechyd**

Mae angen person brwdfrydig â sgiliau prosesu geiriau da i ddarparu cefnogaeth ysgrifenyddol a chymorth clerigol i staff Canolfan Iechyd y Brifysgol. Byddai profiad o weithio mewn lleoliad meddygol o fantais ond nid yw'n hanfodol. Bydd eich dyletswyddau wedi eu diffinio'n glir, ond bydd angen cyfrifoldeb personol, doethineb a menter sylweddol. Byddai sgiliau Iaith Gymraeg o fantais. Mae'r swydd hon am dymor penodol o flwyddyn.

**Oriau: 4 awr yr wythnos, rhwng 1.00pm a 5.00pm, diwrnod i'w drafod.**

**Cyflog: £10558 - £12556 y flwyddyn (pro rata am yr oriau a weithir)**

**Am becyn ymgeisio a manylion ein holl swyddi, ewch i www.caerdydd.ac.uk/jobs Fel arall, anfonwch ebost at vacancies@caerdydd.ac.uk neu ffoniwch + 44 (0) 29 2087 4017 gan ddyfynnu rhif y swydd 077.**

**Dyddiad Cau: Ymgeisiwch cyn gynted â phosib**



TELYNAU VINING HARPS

Dosbarthwr telynau Camac
Distributor of Camac harps

***Mae telynau ac offer telyn Camac ar gael drwy gwmni Telynau Vining, Caerdydd... defnyddiau, crefftwaith a sain o safon uchel am bris cystadleuol.***

**Telynau pedal**
**Telynau Celtaidd**
**Telynau trydan**
**Telynau i'w rhentu**
**Cerddoriaeth, tannau ac offer telyn**

**Cysylltwch â Elen Vining**

**Telynau Vining Cyf.**

21 Heol Wingfield, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 1NJ

Ffôn/Ffacs: (02920) 529084

E-bost: telynauviningharps@cwcom.net